Ombwdsmon Ombudsman

OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU
PUBLIC SERVICES OMBUDSMAN FOR WALES

# Ymatebion i'r Ymgynghoriad i'r Ymchwiliad Arfaethedig ar ei Liwt ei Hun ar y Broses Asesu ac Adolygu Digartrefedd (Medi 2020)

| Ymgynghorai | Crynodeb o'r Sylwadau | Arsylwadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ("OGCC") |
|---|---|---|
| **Julie James AS**<br>**Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol**<br><br>(Ymateb Cyntaf) | Roedd y Gweinidog yn croesawu bwriad yr Ombwdsmon i ystyried y broses ddigartrefedd ar gyfer yr ymchwiliad ar ei liwt ei hun cyntaf.<br><br>Roedd y Gweinidog yn pryderu a fyddai gan Awdurdodau Lleol ymagwedd gyson wrth iddynt weithredu'r Ddeddf, ac wrth weithredu o fewn ysbryd y ddeddfwriaeth. Nododd y Gweinidog y gallai'r gwaith fod yn ddefnyddiol dros ben wrth ganfod meysydd gwaith y gellid eu datblygu a rhoi blaenoriaeth iddynt.<br><br>Awgrymodd y Gweinidog y gallai OGCC hefyd weithredu'r ddeddfwriaeth yn ehangach, gan gynnwys y dehongliad o'r term 'camau rhesymol' (adran 65) a dyletswydd Awdurdodau Lleol i gydweithredu (adran 95), gan y byddai hyn o fudd mawr i'r gwaith sy'n cael ei wneud sydd â'r bwriad o ddatblygu dull mwy ataliol i fynd i'r afael â digartrefedd. | <br><br><br>Pan yn briodol, ystyrir sut mae Awdurdodau Lleol yn gweithredu o fewn 'ysbryd y ddeddfwriaeth'.<br><br><br><br>Mae'r rhain yn awgrymiadau defnyddiol ond byddai'n gwneud cwmpas yr ymchwiliad yn rhy eang. Nodwyd y pryderon hyn i'w hystyried yn y dyfodol. |
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen**<br><br>**(Ymateb Cyntaf)** | Cyfeiriodd yr Awdurdod Lleol at ei brosesau a'i weithdrefnau y dywed sy'n unol â deddfwriaeth, canllawiau, a chyfraith achos berthnasol.<br><br>Roedd yr holl staff wedi'u hyfforddi'n briodol ac roeddent yn mynychu sesiynau briffio ac roeddent yn cael eu goruchwylio i sicrhau cydymffurfiaeth. Dywedodd yr Awdurdod Lleol fod rheoli achosion ac adolygiadau goruchwylio'n ddigonol i amlygu unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Dywedodd yr Awdurdod Lleol fod unigolion yn cael eu hysbysu o'r hawl i gael adolygiad a'u bod yn cael canllawiau ar y broses.<br><br>Roedd yr Awdurdod Lleol yn rhan o grŵp rhanbarthol a oedd yn rhoi pwyslais ar gyfeiriad strategol a gweithredol gwasanaethau. Roedd ganddo hefyd gysylltiadau â holl Awdurdodau Lleol Cymru drwy'r Prosiect Rhwydwaith Tai.<br><br>Dywedodd yr Awdurdod Lleol ei fod, ym mhob cam o'r broses ymgeisio, gan gynnwys cyhoeddi llythyrau dyletswydd statudol, yn rhoi gwybodaeth am yr hawl i adolygu, a sut i gael cyngor annibynnol, gwasanaethau eiriolaeth, a'r camau i'w cymryd os oedd anghydfod ynghylch penderfyniad a wnaed.<br><br>Pan geir cais am adolygiad, anfonir llythyr sy'n nodi'r amserlen, a'r dystiolaeth y bydd angen i'r ymgeisydd ei chyflwyno i ategu'r cais.<br><br>Os bydd penderfyniad yn cael ei wrthdroi, bydd y Swyddog Adolygu'n trafod yr achos â'r Penderfynwr gan roi eglurhad am y penderfyniad. Bydd yr hyn a ddysgir yn cael ei rannu â'r tîm a gwneir newidiadau i brosesau a gweithdrefnau pan fydd angen.<br><br>Nid yw'r Awdurdod Lleol yn credu y byddai'r ymchwiliad arfaethedig er budd y cyhoedd ar hyn o bryd, yn enwedig o ystyried y gwaith a wnaed i sicrhau bod gwasanaethau'n hygyrch.<br><br>Dywedodd yr Awdurdod Lleol ei fod yn cydymffurfio â'r Rheoliadau, ond y byddai, fodd bynnag, yn croesawu barn allanol, ac unrhyw adborth sy'n seiliedig ar ymarfer gorau. | Mae'r Ombwdsmon yn cydnabod yr ymdrechion arbennig a wnaed gan Awdurdodau Lleol mewn ymateb i'r pandemig COVID-19. Mae'r Ombwdsmon yn ymwybodol o'r heriau a wynebir gan y sawl sy'n gweithio yn y sector Tai. Fodd bynnag, mae'r Ombwdsmon yn ymwybodol bod ganddo ddyletswydd weithredol i gyfrannu at welliant gwasanaethau cyhoeddus, hyd yn oed ar adegau fel hyn.<br><br>Fel rhan o'r ymchwiliad arfaethedig, mae'r Ombwdsmon yn gobeithio canfod pa wersi sydd wedi'u dysgu ac adeiladu ar y llwyddiannau a gyflawnwyd eisoes gan y sector Tai. Ei fwriad yw gwneud argymhellion sy'n cyfrannu at greu Cymru fwy cyfartal i genedlaethau'r dyfodol.<br><br>Bydd Swyddogion Ymchwilio'r Ombwdsmon yn ymwybodol o'r pwysau o ran amser ac adnoddau sydd ar Swyddogion Awdurdodau Lleol yn ystod yr ymchwiliad a bydd yn sicrhau bod ymholiadau cymesur a rhesymol yn cael eu gwneud. |

| | | |
|---|---|---|
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam**<br><br>(Ymateb Cyntaf) | Dywedodd yr Awdurdod Lleol fod ymgeiswyr digartref yn cael eu cynghori ar lafar ac yn ysgrifenedig o'u hawl i ofyn am adolygiad o benderfyniad yn ystod pob cam o'r broses asesu.<br><br>Roedd llythyrau hefyd yn hysbysu ymgeiswyr o'r broses adolygu. Hefyd, roedd y llythyr yn cynnwys gwybodaeth ar gael cyngor cyfreithiol drwy Shelter Cymru. Roedd ymgeiswyr yn cael eu hysbysu hefyd, yn ysgrifenedig am y broses adolygu a manylion am bwy fyddai'n cynnal yr adolygiad.<br><br>Mae adolygiadau'n cael eu hystyried gan banel annibynnol, sy'n cynnwys swyddogion nad oedd yn gysylltiedig â'r penderfyniad gwreiddiol. Mae'r Panel Tai yn cynnwys Swyddog Arweiniol Opsiynau a Dyrannu Tai, Arweinydd y Tîm Opsiynau Tai, y Cyfreithiwr Tai, y Swyddog Arweiniol Tenantiaethau Tai a swyddog arall o'r Tîm Rheoli Tai. Mae'r Cyfreithiwr Tai yn sicrhau bod yr holl ymrwymiadau cyfreithiol a chydymffurfiaeth â'r Cod Canllawiau wedi'u cyflawni. Mae'r Swyddog Rheoli Tai yn amhleidiol a heb wybodaeth am geisiadau unigol.<br><br>Mae gan yr ymgeisydd 8 wythnos i gyflwyno gwybodaeth ategol. Bydd hysbysiad o'r penderfyniad yn cael ei roi'n ysgrifenedig.<br><br>Dywedodd yr Awdurdod Lleol ei fod wedi ymrwymo i wella ac adolygu prosesau pan fydd angen. Rhoddwyd enghraifft lle'r oedd yr Awdurdod Lleol wedi adolygu'r cwestiynau a ofynnir i ymgeiswyr am leoliad.<br><br>O ganlyniad i'r newidiadau deddfwriaethol arfaethedig, y trefniadau anffurfiol yn ymwneud â chysgu allan, a dim troi allan, dywedodd yr Awdurdod Lleol y byddai'n ddoeth i oedi cyn agor ymchwiliad o'r fath | Mae'r defnydd o banel annibynnol yn ddiddorol a gellid edrych ar hynny fel arfer da.<br><br>Mae'r enghraifft hon o welliant yn galonogol a gellid edrych ar hyn fel arfer da.<br><br>Mae'r Ombwdsmon yn cydnabod yr ymdrechion a wnaed gan Awdurdodau Lleol i weithredu mewn amgylchiadau sy'n newid yn gyflym wrth iddynt ymateb i'r |

| | | |
|---|---|---|
| | ar yr adeg hon, gan fod perygl o ddod i gasgliadau anghywir, neu y gallai unrhyw ymchwiliad neu adroddiad a gynhyrchid fod yn ddiwerth o fewn amser byr neu na fyddai'n cael llawer o effaith fel cyfrwng i wella. | pandemig COVID-19. Mae hefyd yn cydymdeimlo â'r pwysau a'r heriau a brofir gan y sawl sy'n gweinyddu'r gwasanaethau; fodd bynnag, mae'r Ombwdsmon yn ymwybodol bod ganddo ddyletswydd weithredol i gyfrannu at welliant gwasanaethau cyhoeddus, hyd yn oed ar adegau fel hyn.<br><br>Bydd yr ymchwiliad yn cadw mewn cof effaith deddfwriaethau ac ymarfer blaenorol a chyfredol fel y bydd hynny'n cael ei adlewyrchu yn y dadansoddiad a'r casgliadau. Pan yn gymwys, byddai unrhyw argymhelliad yn berthnasol i wasanaeth ar ôl COVID-19. |
| **Julie James AS**<br>**Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol**<br><br>(Ail Ymateb) | Dywedodd y Gweinidog fod Awdurdodau Lleol wedi gweithio'n eithriadol o galed ers dechrau'r pandemig. Drwy bartneriaethau â'r sector iechyd, y trydydd sector, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, a mudiadau gwirfoddol maent wedi dod â phobl oddi ar y strydoedd a'u lleoli mewn llety dros dro ac argyfwng.<br><br>Dywedodd y Gweinidog, er ei bod yn ymfalchïo yn ymateb y sector, ei bod yn bwysig ein bod yn myfyrio ac yn meddwl a oes unrhyw wersi y gallwn eu dysgu o ganlyniad i'n profiadau yn ystod y misoedd diwethaf. | Bydd yr ymchwiliad yn ystyried ymdrechion a gweithredoedd Awdurdodau Lleol mewn ymateb i COVID-19 yn yr adroddiad.<br><br>Dylai'r newid ym mhwyslais yr ymchwiliad sy'n ymgorffori effaith y pandemig COVID-19 ein galluogi i wneud hyn. |
| **Cyngor Sir Ceredigion** | Dywedodd yr Awdurdod Lleol fod addasiadau rhesymol wedi'u gwneud yn ystod y pandemig COVID-19 fel y gellid asesu | |

| | | |
|---|---|---|
| | ymgeiswyr. Roedd hyn yn galluogi'r Awdurdod Lleol i gyflawni ei rwymedigaethau statudol.<br><br>Yn ystod pob cam o'r broses, mae'r ymgeisydd yn cael eu penderfyniad yn ysgrifenedig. Mae pob hysbysiad yn cynnwys y weithdrefn adolygu.<br>Byddai unrhyw wersi a ddysgir neu welliant sy'n deillio o adolygiad yn cael eu rhannu â'r tîm a bydd unrhyw ofynion hyfforddi'n cael eu nodi.<br><br>Er bod ymgeiswyr yn dal i gael hysbysiadau, nid oes adolygiadau wedi'u cynnal yn ystod cyfnod y pandemig COVID-19.<br><br>Dywedodd yr Awdurdod Lleol fod peth o'r cyffyrddiad personol wedi'i golli am nad oedd modd cynnal asesiadau wyneb yn wyneb, ond bod angen cadarnhad o hynny drwy ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth.<br><br>Roedd yr ymchwiliad a gynigiwyd gan OGCC yn briodol am ei fod yn adolygiad cytbwys annibynnol, a oedd yn ystyried y newid i bolisi Llywodraeth Cymru ac adnoddau lleol. Hefyd, roedd yn gyfle i rannu arferion gorau ac i wella prosesau, a bydd hynny'n rhwym o fod o fudd i gleientiaid ac yn help i wella gwasanaeth yr Awdurdodau Lleol. Bydd yr ymchwiliad hefyd yn dangos i Lywodraeth Cymru pa mor heriol yw'r amgylchiadau y mae Awdurdodau Lleol ac asiantaethau eraill yn darparu gwasanaethau digartrefedd ynddynt.<br><br>Awgrymodd yr Awdurdod Lleol y gallai darparwyr trydydd sector a grwpiau eraill fel Shelter Cymru fod yn rhan o'r broses. | Bydd effaith COVID-19 ar geisiadau am adolygiadau'n cael sylw fel rhan o'r ymchwiliad arfaethedig.<br><br>Bydd effaith addasiadau a wnaed mewn ymateb i COVID-19 ar gyfer ymgeiswyr a'r sawl sy'n gweinyddu'r gwasanaethau hynny yn cael sylw yn ystod yr ymchwiliad.<br><br>Croesawyd yr awgrym hwn gan yr Ombwdsmon. Bydd ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth, y trydydd sector a grwpiau cynrychioliadol eraill yn rhan hanfodol o elfen casglu gwybodaeth yr ymchwiliad arfaethedig. Bydd Swyddogion Ymchwilio'r Ombwdsmon yn ymgysylltu, fel sy'n briodol, â grwpiau perthnasol wrth weithio o fewn canllawiau Llywodraeth Cymru ar gadw pellter cymdeithasol. |

| | | |
|---|---|---|
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam**<br><br>(Ail Ymateb) | Mae asesiadau'n cael eu cynnal yn unol â Chod Canllawiau Llywodraeth Cymru (2016) a'r gofynion cyfreithiol a geir yn Neddf Tai (Cymru) 2014.<br><br>Mae ymgeiswyr yn cael eu hysbysu'n llafar o'u hawl i ofyn am adolygu o benderfyniad ar gymorth digartrefedd.<br>Anfonir gohebiaeth at ymgeiswyr sy'n cynnwys gwybodaeth am wneud cais am adolygiad sy'n seiliedig ar addasrwydd llety a gynigir neu pan fydd dyletswydd wedi dod i ben. Mae hyn hefyd yn cynnwys gwybodaeth ar gael cyngor cyfreithiol annibynnol ac mae'n cynnwys manylion cyswllt Shelter Cymru.<br><br>Mae penderfyniadau a wrth-drowyd yn cael eu trafod naill ai yn ystod sesiynau briffio'r tîm neu mewn sesiynau goruchwylio un i un, fel y gellir cymryd camau angenrheidiol i wneud yn siŵr na fydd yn digwydd eto.<br><br>Pan fydd angen, bydd gweithdrefnau'n cael eu newid i adlewyrchu gwersi a ddysgwyd. Rhoddwyd enghraifft a oedd yn dangos bod swyddogion wedi gofyn am ragor o wybodaeth gan ymgeiswyr ar fynediad at drafnidiaeth wrth asesu addasrwydd llety.<br><br>Mae'r newidiadau i'r categorïau angen blaenoriaethol a'r diffiniad o agored i niwed wedi arwain at broses asesu sy'n rhoi pwyslais ar faterion personol ac addasrwydd llety. Er bod diddymu'r categori angen blaenoriaethol wedi gwneud y broses asesu'n haws, mae wedi bod yn anos casglu gwybodaeth berthnasol, sy'n ymwneud ag ymgeiswyr, gan drydydd partïon. Hefyd, yn ystod y pandemig COVID-19, cynhaliwyd llai o adolygiadau. | Mae hon yn enghraifft o welliant a gallai fod yn enghraifft o arfer da i bob Awdurdod Lleol.<br><br>Gallai'r enghraifft hon o newid mewn arferion wrth ymateb i COVID-19 fod yn enghraifft o arfer da i bob Awdurdod Lleol, yn enwedig rhai mewn ardaloedd gwledig.<br><br>Wrth gynnal yr ymchwiliad arfaethedig rhoddir sylw i effeithiau deddfwriaethau ac arferion blaenorol a chyfredol fel y byddant yn cael eu cynnwys mewn unrhyw ddadansoddiad a chasgliadau. Pan yn gymwys, byddai unrhyw argymhelliad yn berthnasol i wasanaeth ar ôl COVID-19.<br><br>Bydd yr ymchwiliad yn ystyried ymdrechion a gweithredoedd Awdurdodau Lleol mewn ymateb i COVID-19. |

| | | |
|---|---|---|
| | Dywedodd yr Awdurdod Lleol na fyddai er budd y cyhoedd i gynnal yr ymchwiliad arfaethedig. Mae swyddogion yn delio â’r blaenoriaethau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru, gan barhau i ddarparu’r gwasanaeth o ddydd i ddydd i’r cyhoedd a all fod mewn perygl o fod yn ddigartref.<br><br>Llwyddodd yr Awdurdod Lleol i sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru tuag at ailgartrefu unigolion digartref yn y dyfodol fel rhan o Gam 2 ymateb Llywodraeth Cymru i ddigartrefedd. Dywedodd yr Awdurdod Lleol fod hwn yn ddarn sylweddol o waith, a oedd yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth. Byddai ymchwiliad yn golygu tynnu adnoddau staffio gwerthfawr oddi wrth y prosiect.<br><br>Dywedodd yr Awdurdod Lleol na fyddai ymchwiliad yn edrych ar wasanaeth sy’n gweithredu o dan amgylchiadau arferol.<br><br>Dywedodd yr Awdurdod Lleol fod y rhan fwyaf o’r ceisiadau am adolygiad yn seiliedig ar bwynt y cyfreithiol yn hytrach na chamgymeriad yn y broses asesu. | Mae’r Ombwdsmon yn cydnabod yr ymdrechion a wnaed, ac sy’n parhau i gael eu gwneud, gan Awdurdodau Lleol mewn ymateb i’r pandemig COVID-19. Mae hefyd yn cydymdeimlo â’r pwysau a’r heriau a wynebir gan swyddogion o fewn y sector ond mae’n ymwybodol fod ganddo, fel Ombwdsmon, ddyletswydd weithredol i gyfrannu at wella gwasanaethau, hyd yn oed ar adegau fel hyn. Bwriad yr Ombwdsmon yw defnyddio’r ymchwiliad arfaethedig i ganfod gwersi ehangach a’u rhannu i adeiladu ar y llwyddiannau a gyflawnwyd i helpu i greu Cymru fwy cyfartal ar yfer cenedlaethau’r dyfodol.<br><br>Mae Awdurdodau Lleol yn gweithredu o dan amgylchiadau sy’n newid yn gyflym o ganlyniad i’r pandemig Covid-19. Gyda golwg ar hyn, bydd Swyddogion Ymchwilio’r Ombwdsmon yn ymwybodol o’r pwysau o ran amser ac adnoddau sydd ar Awdurdodau Lleol a bydd yn sicrhau bod ymholiadau cymesur a rhesymol yn cael eu gwneud. |
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen** | Mae’r Awdurdod Lleol yn darparu swyddogaethau asesu statudol ac mae’n gweithio mewn partneriaeth glos ag ystod o asiantaethau i | |

| | | |
|---|---|---|
| (Ail Ymateb) | fynd i'r afael â digartrefedd ac i ddatblygu gwasanaethau sy'n helpu unigolion sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o gael eu gwneud yn ddigartref.<br><br>Mae staff ar y rheng flaen yn deall y prosesau ac mae ganddynt ganllawiau cenedlaethol a lleol i'w dilyn.<br><br>Mae gwybodaeth eglur yn cael ei rhoi o'r cychwyn cyntaf am hawl yr unigolyn i ofyn am adolygiad. Mae hyn yn cynnwys yr amserlenni sydd ynghlwm wrth y broses a gwahoddiad i siarad â'r swyddog achos neu aelod arall o staff os nad ydynt yn siŵr. Mae ymgeiswyr hefyd yn cael eu cynghori i gysylltu ag asiantaethau cynghori annibynnol a rhoddir gwybodaeth am sut i wneud hynny.<br><br>Mae gwiriadau ac archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal gan arweinyddion timau. Bydd unrhyw broblemau a ganfyddir yn cael sylw gan y swyddogion. Hefyd, os oes achos yn cael ei wrthdroi, bydd y swyddog yn cael ei hysbysu o'r rheswm pam ac, os yn briodol, rhoddir cyngor a hyfforddiant ategol. Dywedodd yr Awdurdod Lleol fod hwn yn faes dysgu cyson ar draws pob sector. Dywedodd yr Awdurdod Lleol fod datrysiadau anffurfiol yn cael eu datblygu'n gyflym iawn a bod hynny'n helpu i ailstrwythuro a mireinio'r prosesau.<br><br>Dywedodd yr Awdurdod Lleol ei fod yn defnyddio economeg ymddygiadol mewn ymdrech i ymgysylltu â chwsmeriaid mewn ffordd wahanol, a bod y canfyddiadau cychwynnol yn bositif dros ben gan gynnwys mwy o ymgysylltu ag unigolion ynghylch y broses gyfan a chanlyniad gwell o ran atal digartrefedd. Dywedodd yr Awdurdod Lleol ei fod wedi gweithio mewn partneriaeth â 6 Awdurdod Lleol arall i ddyfeisio system rheoli achosion newydd sy'n | Mae'r newidiadau hyn yn galonogol a gellid edrych arnynt fel arfer da i bob Awdurdod Lleol.<br><br>Gellid edrych ar y dull monitro hwn drwy economeg ymddygiadol ac effaith y newid ar ymgysylltu â chwsmeriaid fel enghraifft o arfer da i bob Awdurdod Lleol. |

| | | |
|---|---|---|
| | fodd i gael lefel uwch o ryngweithio â chwsmeriaid ac sy’n galluogi mwy o fonitro heb gynyddu’r llwyth gwaith a’r pwysau ar staff.<br><br>Roedd y fframwaith ar gyfer y ddeddfwriaeth yn eglur iawn ac roedd Awdurdodau Lleol wedi glynu wrtho. Mae llythyrau’n rhoi arweiniad i unigolion ar yr opsiynau sydd ar gael iddynt o ran adolygiadau a beth yn union yw’r gofynion.<br><br>Dywedodd yr Awdurdod Lleol fod y broses asesu’n anos mewn rhai achosion ers COVID-19 gan nad oedd cyfweliadau wyneb yn wyneb yn cael eu cynnal. Dywedodd yr Awdurdod Lleol fod hyn wedi gwneud y broses a’r gwaith sydd wedi’u sefydlu ychydig yn llai personol. Fodd bynnag, roedd yr Awdurdod Lleol yn gobeithio y byddai’r defnydd o dechnoleg a’r system rheoli achosion newydd yn dod â rhai buddiannau yn ei sgil, er bod peth pryder ynglŷn ag ymgysylltu â rhai sydd wedi’u hallgau’n ddigidol. Dywedodd yr Awdurdod Lleol fod niferoedd yr achosion wedi codi yn achos rhai grwpiau (sef pobl sengl a oedd yn profi perthynas yn chwalu) a’i bod wedi bod yn anos gwneud gwaith ataliol a oedd yn anffodus wedi cynyddu o ganlyniad i’r galw am lety dros dro.<br><br>Dywedodd yr Awdurdod Lleol nad oedd COVID-19 wedi cael llawer o effaith ar nifer y ceisiadau am adolygiadau, a oedd ychydig yn is nag yn y gorffennol.<br><br>Roedd yr Awdurdod Lleol wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran llety a oedd yn deillio o COVID-19 er gwaethaf y pwysau mawr roedd wedi’i olygu i adnoddau, yn ariannol ac ymarferol. Bu peth anhawster wrth reoli peth o’r llety a ddarparwyd i bobl a bod hynny wedi golygu risg sylweddol i staff a phreswylwyr. Dywedodd yr Awdurdod Lleol ei fod yn gwneud gwell defnydd o dechnoleg i | Bydd ymdrechion a gweithredoedd Awdurdodau Lleol a’r effaith ar y broses yn dilyn COVID-19 yn cael eu hystyried yn ystod yr ymchwiliad arfaethedig.<br><br>Bydd effaith COVID-19 ar geisiadau am adolygiadau yn cael ei hystyried fel rhan o’r ymchwiliad arfaethedig.<br><br>Bydd ymdrechion a gweithredoedd Awdurdodau Lleol mewn ymateb i COVID-19 yn cael eu hystyried yn ystod yr ymchwiliad arfaethedig.<br><br>Mae’r Ombwdsmon yn cydnabod yr ymdrechion arbennig a wnaed gan Awdurdodau Lleol mewn ymateb i’r |

| | | |
|---|---|---|
| | gyflymu rhai elfennau o'r broses benderfynu ynghyd â gallu datblygu sgiliau cyfathrebu'r staff.<br><br>Dywedodd yr Awdurdod Lleol nad oedd amseriad yr ymchwiliad arfaethedig yn helpu. Roedd Awdurdodau Lleol o dan bwysau difrifol ac roeddent yn datblygu ac yn cyflawni rhaglen anodd dros ben. Byddai'n well neilltuo amser i waith fel hwn ar ôl i'r pandemig gilio a phan fydd y pwysau wedi mynd heibio. | pandemig COVID-19. Mae'r Ombwdsmon yn ymwybodol o'r heriau a wynebir gan y sawl sy'n gweithio yn y sector Tai. Fodd bynnag, mae'r Ombwdsmon yn ymwybodol bod ganddo ddyletswydd weithredol, fel Ombwdsmon i gyfrannu at wella gwasanaethau, hyd yn oed ar adegau fel hyn. Gobeithir y bydd yr ymchwiliad arfaethedig yn canfod gwersi i'w dysgu ac y bydd yn adeiladu ar y llwyddiannau a gyflawnwyd, fel y bydd unrhyw argymhellion yn helpu i greu Cymru fwy cyfartal i genedlaethau'r dyfodol. |
| **Helena Herklots CBE Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru** | Croesawodd y Comisiynydd y cynnig gan bwysleisio bod cyflwr pobl hŷn sy'n colli eu cartref yn real ac yn achos pryder cynyddol.<br><br>Cyfeiriodd y Comisiynydd at bapur gan Age UK (Gorffennaf 2019) a oedd yn dangos bod lefelau digartrefedd ymhlith pobl hŷn yn debygol o ddyblu yng Nghymru a Lloegr erbyn 2025. Canfu Age UK nad oedd llawer o bobl hŷn yn gwneud cais am help i Awdurdodau Lleol, ac y gall y rhai sy'n gwneud gael eu gwrthod oherwydd y ffordd mae'r Awdurdod Lleol yn dehongli'r ddeddfwriaeth. Yn ôl Age UK, hyd yn oed pan mae angen blaenoriaethol ac elfennau agored i niwed wedi'u cadarnhau, mae pobl hŷn ddigartref yn aml yn guddiedig mewn hosteli neu lety dros dro ac nad ydynt yn ymddangos yn yr ystadegau swyddogol.<br><br>Dywedodd y Comisiynydd fod argaeledd cyngor a chymorth, yn enwedig ar gael llety arall, yn hanfodol, ynghyd â dealltwriaeth glir | Roedd ymateb y Comisiynydd yn amlygu'r anawsterau a brofir gan bobl hŷn yng Nghymru. Rhoddir sylw i'r agwedd hon yn ystod yr ymchwiliad. |

| | | |
|---|---|---|
| | o'r broses asesu, yr hawl i ofyn am adolygiad, a'r hawl i wneud cwyn arall.<br><br>Cytunodd y Comisiynydd fod mwy o bwyslais ar gydweithredu yn gyfle i newid canfyddiadau ac i gyrraedd y rhai hynny nad ydynt yn teimlo eu bod yn alluog i ymgysylltu â gwasanaethau. | |
| **Adrian Crompton**<br>**Archwilydd Cyffredinol**<br>**Archwilio Cymru** | Cyfeiriodd yr Archwilydd Cyffredinol at ei adroddiad ar Reoli'r Galw, a oedd yn edrych ar wasanaethau digartrefedd awdurdodau lleol (Ionawr 2018), ac a ganfu, er bod Deddf Tai (Cymru) 2014 yn rhoi gofyniad ar Awdurdodau Lleol i ganolbwyntio ar atal digartrefedd, nid oedd pob Awdurdod Lleol wedi trefnu eu hunain yn ddigonol i weithredu'r dyletswyddau hyn yn llawn.<br><br>Nododd fod gweithredu'r dyletswyddau atal newydd yn gofyn am sgiliau gwahanol a ffyrdd newydd o weithio; fodd bynnag roedd ymateb Awdurdodau Lleol i'r heriau hyn yn amrywiol ac nid oedd pob Awdurdod Lleol wedi gweithredu eu cyfrifoldebau statudol newydd yn effeithiol.<br><br>Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol fod y lleihad mewn cyllid ar gyfer gwasanaethau digartrefedd wedi arwain at loteri cod post yn achos gwasanaethau ledled Cymru. Er bod gwariant Awdurdodau Lleol ar wasanaethau digartrefedd wedi'i wrthbwyso gan gyllid grant Llywodraeth Cymru, nid oedd pob Awdurdod Lleol yn defnyddio'r grant hwn i ddatblygu dulliau cynaliadwy i fynd i'r afael â digartrefedd. Nid oedd digon o gysondeb rhwng gwasanaethau i sicrhau bod pob unigolyn digartref a oedd angen help a chyngor yn ei gael.<br><br>O ran perfformiad, daeth yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad bod pobl ddigartref, neu rai mewn perygl o fod yn ddigartref, yn cael | Roedd yr adroddiad wedi'i ystyried wrth lunio'r ymgynghoriad hwn a bydd yn cael ei ystyried eto fel rhan o broses yr ymchwiliad arfaethedig. |

| | | |
|---|---|---|
| | datrysiadau gwahanol iawn a oedd yn dibynnu i raddau helaeth ar ble yng Nghymru roeddent yn gofyn am help. Er bod y rhan fwyaf o awdurdodau wedi datblygu ystod o ddewisiadau i fynd i'r afael â digartrefedd, roedd lle o hyd i ehangu'r opsiynau sydd ar gael. Hefyd, er bod dangosyddion perfformiad cenedlaethol yn awgrymu peth llwyddiant wrth geisio atal digartrefedd, roedd perfformiad Awdurdodau Lleol yn amrywio gormod ac roedd yn dechrau gostwng. Hefyd, nid oedd trefniadau rheoli perfformiad Awdurdodau Lleol yn rhoi digon o bwyslais ar ddangos bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n gydradd i bob dinesydd ac roedd hynny'n tanseilio'u gallu i gyflawni Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED).<br><br>Cyfeiriodd yr Archwilydd Cyffredinol hefyd at ei adroddiad ar bobl sy'n cysgu allan (Gorffennaf 2020). Roedd hwn hefyd yn amlygu gwendidau yn y modd roedd gwasanaethau'n cael eu darparu i bobl agored i niwed sy'n ddigartref. Nid oedd yr adolygiad yn ystyried y broses asesu digartrefedd yn benodol; roedd yn hytrach yn edrych sut yr oedd cyrff cyhoeddus yn cydweithredu ac ar ymatebion gwasanaethau integredig i fynd i'r afael â chysgu allan. Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol er bod cyfrifoldeb statudol ar Awdurdodau Lleol i fynd i'r afael â chysgu allan, roedd disgwyl i wasanaethau a sefydliadau eraill chwarae eu rhan i ddiwallu anghenion pobl agored i niwed sy'n cysgu allan. Fodd bynnag, roedd yr ymgysylltu hwnnw'n amrywio'n fawr ac nid oedd yn gweithio'n effeithiol.<br><br>Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol ei fod wedi canfod gwendidau yn y modd roedd Adran 95 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn cael ei gweithredu ac a oedd yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gydweithredu i helpu i fynd i'r afael â digartrefedd. | Roedd yr adroddiad hwn wedi'i ystyried wrth lunio'r ymgynghoriad hwn a bydd yn cael ei ystyried eto fel rhan o broses yr ymchwiliad arfaethedig. |

| | | |
|---|---|---|
| | Yn adroddiad Gorffennaf 2020, roedd yr Archwilydd Cyffredinol yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru a gwasanaethau tai Awdurdodau Lleol wedi ymateb yn bositif i her COVID-19 a'u bod wedi helpu dros 800 o bobl i gael llety priodol a mwy diogel. | |
| **Ysgol y Gyfraith Bangor** | Cyfeiriwyd at yr adroddiad Good Administration and Justice in Wales a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Dangosodd yr ymchwil bryderon ynglŷn â'r anawsterau a brofir gan swyddogion Awdurdodau Lleol wrth gymhwyso deddfwriaeth a chanllawiau am eu bod yn teimlo eu bod yn gymhleth, gan gynnwys rhwymedigaethau statudol i sicrhau bod asesiadau'n cael eu cynnal yn briodol. Clywyd nad yw staff Awdurdod Lleol staff 'yn arbenigwyr yn y gyfraith, ond eu bod yn hytrach yn gweinyddu'r gyfraith'.<br><br>Nodwyd anawsterau penodol o ran dealltwriaeth o'r gwahaniaeth rhwng cyfraith a pholisi, a rhwng prosesau penderfynu a lywodraethir gan reolau a rhai dewisol ac, yn benodol, sut y gall cynnydd yn lefel cyfraith feddal (fel canllawiau a fframweithiau amrywiol newydd), sy'n ddulliau i ategu prosesau penderfynu, arwain at ddryswch ynglŷn â'r gofod priodol ar gyfer dyfarnu dewisol.<br><br>Er bod y rhan fwyaf o'r ymchwil wedi'i wneud yn y cyfnod cyn COVID-19, y farn oedd y gallai cynnydd mewn canllawiau (statudol ac anstatudol) a 'chyngor' ers COVID-19, yn enwedig o ran yr hyn sydd ac nad yw'n 'rhesymol' mewn cyd-destunau penodol fod wedi ychwanegu mwy fyth o haenau o gymhlethdodau at brosesau penderfynu.<br><br>Nodwyd pwysigrwydd cyngor, sydd weithiau'n cynnwys cyngor cyfreithiol, i ba mor hygyrch yw adolygiadau, ac i'r potensial i ddysgu | Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei ystyried fel rhan o'r broses ymchwilio arfaethedig. |

| | | |
|---|---|---|
| [1] Y Comisiwn ar Gyfiawnder, Pennod 3 'Gwybodaeth, cyngor a chymorth'. | gwersi o adolygiadau. Roedd yr ymatebwyr i'r ymchwil yn arbennig o bryderus am y diffyg mynediad at gyngor wedi'i ariannu gan gymorth cyfreithiol gan mai dim ond ychydig iawn o ddarparwyr sy'n dal contractau cymorth cyfreithiol i roi cyngor cyfreithiol ar faterion tai, ac roedd y rhai hynny sydd yn ei gynnig yn teimlo bod eu gwasanaethau'n cael eu hymestyn i'r eithaf. Cadarnhawyd hyn mewn tystiolaeth i'r Comisiwn ar Gyfiawnder, gan nodi hyd yn oed pan oedd hawliau cyfreithiol i adolygu neu apelio yn erbyn penderfyniadau gweinyddol penodol wedi'u datgan yn glir mewn llythyr penderfyniad, roedd diffyg mynediad at gyngor (a chyngor wedi'i ariannu gan gymorth cyfreithiol yn benodol) yn dal yn rhwystr sylweddol rhag cael iawn.<br><br>Roedd yr adroddiad yn cydnabod cymhlethdod y sefyllfa, lle'r oedd arian cyhoeddus ar gael i herio rhai agweddau ar brosesau penderfynu, ond nid i herio agweddau eraill. Roedd teimlad bod gwasanaethau cynghori yn eithaf 'ffwrdd â hi' ar y cyfan a bod mwy y gellid ei wneud i ddarparu gwybodaeth eglur a hawdd ei darllen i bobl am eu hawliau tai, gan gynnwys eu hawl i gael adolygiad, a'u hawl i gael cyngor cyfreithiol annibynnol ar dai, cyn gynted â phosibl. Nodwyd fod rhai wedi dweud bod y cyngor a roddwyd yn eglur ac wedi'i roi'n gynnar, ond mewn rhai achosion nid oedd y cyngor a roddwyd yn ffeithiol gywir.<br><br>Roedd un o'r rhesymau a nodwyd amlaf dros beidio herio gan gyfranogwyr yn yr ymchwil yn cyfeirio at 'flinder', nad oedd ganddynt yr 'egni' i ddilyn prosesau, a bod hynny wedi'i ddwysau gan agweddau negyddol staff Awdurdodau Lleol, teimlo'n bryderus a phrofi agweddau bygythiol, a diffyg hyder, yn enwedig yn achos materion fel paratoi cyflwyniadau ysgrifenedig neu orfod mynd i | |

| | | |
|---|---|---|
| | wrandawiadau llafar. Nodwyd hefyd ymdeimlad o 'anghydbwysedd grym' rhwng yr unigolyn a'r corff cyhoeddus.<br><br>Yn ogystal ag adolygiadau digartrefedd, roedd yr ymchwil hefyd wedi canolbwyntio ar y prosesau adolygu gweinyddol mewn penderfyniadau ar ddyrannu tai cymdeithasol a'r berthynas rhwng y landlord a'r tenant mewn tai cymdeithasol. Gwelwyd materion tebyg yn codi ym mhob maes: gan gynnwys amrywiadau o ran y gallu i ddefnyddio'r weithdrefn adolygu (yn gysylltiedig â diffyg cyngor, gan gynnwys cyngor gan gymorth cyfreithiol), canfyddiadau amrywiol o ran ansawdd prosesau adolygu, bod y data a gasglwyd yn gyfyngedig neu nad oed yn cael ei gasglu o gwbl ar nifer yr adolygiadau a'u canlyniad, gwybodaeth gyfyngedig neu ddim o gwbl am drefniadau anffurfiol i ddatrys anghydfodau a'u canlyniad. Roedd hyn yn achos pryder o gofio mai adolygiadau gweinyddol mewnol oedd y prif ddull o wneud iawn sydd ar gael o dan ddeddfwriaeth Cymru.<br><br>Mae'r pryderon hyn yn cefnogi'r ddadl ehangach dros ymchwiliadau ar ei liwt ei hun, oherwydd mi allai'r canfyddiadau fod o fudd cyhoeddus ehangach i'r sector tai cymdeithasol yn ei gyfanrwydd ac nid yng nghyd-destun penodol digartrefedd yn unig. | |
| **Yr Athro Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru** | Croesawodd y Comisiynydd gynnig yr Ombwdsmon i gynnal ymchwiliad i'r broses asesu ac adolygu digartrefedd er mwyn cael gwell dealltwriaeth, ac i ymateb ar y cyd, i effeithiolrwydd rhwymedigaethau statudol o ran asesu digartrefedd ac atal digartrefedd ymhlith plant a phobl ifanc a'u teuluoedd.<br><br>Roedd y Comisiynydd yn bryderus bod nifer anghymesur o bobl ifanc a oedd wedi bod mewn gofal, yn wynebu'r profiad dychrynllyd | Mae ymateb y Comisiynydd yn amlygu'r anawsterau a brofir gan bobl ifanc yng Nghymru. Rhoddir sylw i hyn yn ystod yr ymchwiliad. |

| | | |
|---|---|---|
| | o fod yn ddigartref. Er bod y Comisiynydd yn croesawu'r camau a gymerwyd yn y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys "Lleoliadau Pan wyf yn Barod", Fframwaith Llety Gadawyr Gofal Barnardo's, a chyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i helpu cynlluniau llety sy'n benodol ar gyfer gadawyr gofal, mae pobl ifanc yn dal i syrthio rhwng y bylchau mewn cymorth statudol. O ganlyniad, maent yn profi sefyllfaoedd llety bregus dros ben a digartrefedd. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r Comisiynydd wedi gweld cynnydd yn nifer y bobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal sy'n profi digartrefedd, o 69 yn 2016/17 i 90 yn 2018/19. Ond dylid nodi, fodd bynnag, fod y ffigwr hwn yn cynnwys y rhai hynny'n unig sydd wedi'u canfod fel pobl ddigartref, ac y gallai'r ffigur gwirioneddol fod yn uwch. Cyfeiriodd y Comisiynydd at adroddiad End Youth Homelessness Cymru "Don't Let Me Fall Through The Cracks" a oedd yn edrych ar y methiannau trefniadol a systematig a allai fod yn cyfrannu at y cynnydd hwn.<br><br>Drwy gyfrwng adroddiadau blynyddol, mae'r Comisiynydd wedi mynegi pryderon droeon am ddiffyg cymorth a llety digonol i rai sy'n gadael gofal ac mae wedi galw am newidiadau statudol i sicrhau bod pobl ifanc fregus sy'n gadael gofal yn cael cymorth cyson yn ystod y cyfnod pontio i fod yn oedolion, ynghyd â chael unigolyn penodol i'w helpu drwy'r broses asesu gymhleth ac amrywiol i gael llety, os bydd ei angen arnynt.<br><br>Cyfeiriodd y Comisiynydd at ystadegau diweddaraf Llywodraeth Cymru ar aelwydydd â phlant dibynnol sy'n byw mewn llety dros dro ac sydd mewn perygl o fod yn ddigartref gan ddangos bod nifer sylweddol o blant a phobl ifanc yng Nghymru wedi'u hamlygu i sefyllfaoedd llety bregus, heb lawer o reolaeth drostynt. Dywedodd y Comisiynydd ei bod yn hanfodol bod unrhyw asesiad ar gyfer | Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei ystyried fel rhan o'r broses ymchwilio arfaethedig.<br><br>Bydd yr ymchwil y cyfeiriwyd ati gan y Comisiynydd yn cael sylw fel rhan o'r ymchwiliad arfaethedig. |

| | | |
|---|---|---|
| | teuluoedd â phlant dibynnol yn ystyried hawliau unigryw plant a phobl ifanc fel yr amlinellwyd yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC).<br><br>Roedd y Comisiynydd yn ymwybodol bod y defnydd o lety gwely a brecwast wedi cynyddu mewn rhai Awdurdodau Lleol yn achos pobl ifanc a oedd wedi gadael gofal yn ystod y pandemig, pan nad oedd modd sicrhau llety addas ar eu cyfer. Roedd hyn yn achos pryder arbennig am nad oedd pob trefniant 'gwely a brecwast' yn addas ar gyfer pobl ifanc. Mewn rhai achosion, roedd pobl ifanc, rhai mor ifanc ag 16 oed, wedi eu rhoi mewn amgylchiadau a oedd yn eu gwneud yn agored i niwed a cham-fanteisio.<br><br>Mynegwyd y pryderon hyn gan weithgor End Youth Homelessness Cymru.<br>Cyfeiriodd y Comisiynydd at ganllaw Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Plant yn ystod y pandemig COVID-19 ac roedd yn cydnabod "y gall fod yn anodd o hyd dod o hyd i lety addas ac sydd ar gael" i rai sy'n gadael gofal, a dywedodd fod hynny'n dangos y pwysau cynyddol sydd ar wasanaethau cymdeithasol a phobl ifanc i gartrefu gadwayr gofal yn briodol ac yn ddiogel, sydd ymhlith y bobl ifanc fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas. Dywedodd y Comisiynydd hefyd fod llawer o bobl ifanc nad oedd wedi gallu cael cymorth yn y ffordd y byddent yn arfer ei gael yn ystod y pandemig.<br><br>Cyfeiriodd y Comisiynydd at ymchwil gan CASCADE a Voices from Care, gyda gadawyr gofal a'r gweithwyr proffesiynol sy'n eu helpu yn ystod y cyfnod hwn, i ddeall yn anghenion gadawyr gofal yn well a'r ffordd orau i'w helpu. Awgrymodd y Comisiynydd y byddai'r ymchwil hon yn berthnasol i'r adolygiad o safbwynt dealltwriaeth o | Croesewir yr awgrym hwn a bydd yn cael sylw fel rhan o'r ymchwiliad arfaethedig. |

| | | |
|---|---|---|
| | anghenion unigryw a'r ffactorau sy'n gwneud gadawyr gofal yn agored i niwed a'r ffordd orau o ddarparu cymorth tai ar eu cyfer.<br><br>Dywedodd y Comisiynydd mai Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru oedd y sefydliad priodol i ymgymryd â'r gwaith hwn gan fod ymateb i ddigartrefedd yn ddyletswydd gwasanaeth cyhoeddus allweddol. Roedd hefyd yn fater, os wedi'i wneud yn dda, a allai weddnewid bywydau unigolion a theuluoedd ac mae felly'n ddigon pwysig. Byddai'r Comisiynydd yn disgwyl i'r Ombwdsmon ystyried yr adroddiadau diweddar a grybwyllwyd yn yr ymateb hwn i osgoi unrhyw ddyblygu mewn ymdrechion ymchwil yn y meysydd penodol hynny, gan na fyddai hynny'n ddefnydd da o arian cyhoeddus. | |
| **Cyngor Bwrdeistref Sir Ddinbych** | Dywedodd yr Awdurdod Lleol fod asesiadau prydlon yn cael eu cynnal gan bob Awdurdod i gyflawni eu rhwymedigaethau statudol.<br><br>Dywedodd yr Awdurdod Lleol ei fod, drwy gydol y pandemig COVID-19, wedi gweld mwy o ymgeiswyr digartref yn cael eu cartrefu, ac mai dim ond yn achos ychydig iawn o ymgeiswyr yr oedd eu dyletswydd wedi dod i ben. Fodd bynnag, yn yr achosion hyn, cawsant wybodaeth ar sut i wneud cais i adolygu'r penderfyniad.<br><br>Dywedodd yr Awdurdod Lleol ei fod, pan yn bosibl, wedi cydymffurfio â'r gweithdrefnau a'r amserlenni sy'n gysylltiedig ag asesiadau ac adolygiadau, oni bai bod amgylchiadau penodol wedi atal hynny.<br><br>Dywedodd yr Awdurdod Lleol ei fod wedi treulio llawer o amser yn 'diffodd tanau', a bod y pwysau gwaith ar wasanaethau rheng flaen | |

| | | |
|---|---|---|
| | wedi golygu bod y cyfle i fyfyrio a dysgu i newid arferion gweithio wedi'i golli'n aml.<br><br>Dywedodd yr Awdurdod Lleol fod yn rhaid i'r gwasanaeth newid ei ffodd o gynnal yr asesiad yn achos y rhan fwyaf o ymgeiswyr digartrefedd mewn ymateb i COVID-19, a'u bod yn awr yn cael eu cynnal yn rhithiol neu dros y ffôn. Hefyd, roedd y broses adolygu'n anos yn awr oherwydd y prinder dewis a'r cyflenwad o ran llety. Dywedodd yr Awdurdod Lleol ei fod defnyddio sefydliadau mwy fel gwestai ar gyfer llety argyfwng a bod hynny'n ei gwneud yn haws i ddarparu cymorth ychwanegol i aelwydydd digartref a bod hynny wedi gweithio'n dda. Fodd bynnag, pan oedd ymgeiswyr digartref yn arddangos ymddygiad gwrthgymdeithasol parhaus roedd yn anodd rheoli'r sefyllfa oherwydd y ddyletswydd i leoli.<br><br>Cytunodd yr Awdurdod Lleol fod yr ymchwiliad arfaethedig er budd y cyhoedd ac mai'r OGCC oedd y corff mwyaf priodol i ymgymryd â'r dasg. | |
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili** | Dywedodd yr Awdurdod Lleol ei fod yn gwneud pob ymdrech i gyflawni ei rwymedigaethau statudol, ond amherir ar hyn oherwydd niferoedd y cyflwyniadau, cymhlethdod y ceisiadau, a'r anhawster wrth geisio cael gwybodaeth yn ystod y cyfnod anodd hwn.<br><br>Dywedodd yr Awdurdod fod manylion am yr hawl i ofyn am adolygiad wedi'u cynnwys yn yr holl lythyrau hysbysu. Roedd hefyd yn cyfeirio ymgeiswyr at Shelter Cymru neu Gyngor ar Bopeth i sicrhau bod ymgeiswyr yn cael yr holl wybodaeth oedd ei hangen arnynt. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Dywedodd yr Awdurdod Lleol ei fod yn manteisio ar bob cyfle i ddiweddaru ac i gyfarwyddo â newidiadau, gan gynnwys penderfyniadau a oedd wedi'u gwrthdroi, a fyddai'n cael eu lledaenu ymhlith y timau. Dywedodd yr Awdurdod Lleol fod penderfyniadau gwreiddiol, rhesymau am adolygu a'r canlyniadau yn hanfodol i sicrhau arferion a phrosesau da.<br><br>Dywedodd yr Awdurdod Lleol fod COVID-19 wedi creu problemau enfawr o ran anghenion blaenoriaethol a'r lleoliadau dan sylw. Er bod yn rhaid cwblhau'r un asesiadau, roedd y nifer fawr o geisiadau wedi golygu baich enfawr ar staff, fel bod asesiadau'n ddioddef o ganlyniad.<br><br>Dywedodd yr Awdurdod Lleol nad yw Covid-19 wedi cael llawer o effaith ar y broses adolygu.<br><br>Dywedodd yr Awdurdod Lleol ei bod yn anodd gwneud sylw ar sut mae unrhyw beth wedi gweithio'n bositif yn ystod y pandemig, heblaw pwysleisio ymrwymiad llwyr y staff. Dywedodd yr Awdurdod Lleol ei fod yn teimlo fel gwasanaeth diffodd tân gyda'r canlyniadau i ddilyn yn ddiweddarach. Roedd yr argyfwng yn dal yn flaenoriaeth gyda chyllid a chynlluniau heb gael effaith eto.<br><br>Wrth ystyried a yw er budd y cyhoedd i'r Ombwdsmon ymchwilio yn y modd a gynigir, dywedodd yr Awdurdod Lleol fod hynny'n dibynnu ar ei ddiben, a bod unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwelliant i'w croesawu. | Bydd ymdrechion a gweithredoedd Awdurdodau Lleol mewn ymateb i COVID-19 yn cael sylw yn ystod yr adroddiad a bydd hynny'n cael ei adlewyrchu ynddo.<br><br>Bydd effaith COVID-19 ar geisiadau am adolygiadau yn cael sylw fel rhan o'r ymchwiliad arfaethedig.<br><br>Mae'r Ombwdsmon yn cydnabod yr ymdrechion arbennig a wnaed gan Awdurdodau Lleol mewn ymateb i'r pandemig COVID-19. Mae'n deall yr heriau mae staff yn y sector tai yn eu hwynebu. Fodd bynnag, mae'n ymwybodol bod ganddo ddyletswydd weithredol, fel Ombwdsmon i gyfrannu at wella gwasanaethau, hyd yn oed ar adegau fel hyn.<br><br>Bydd yr ymchwiliad arfaethedig yn nodi gwersi a bydd yn adeiladu ar y llwyddiannau a welwyd a all helpu i greu Cymru fwy cyfartal i genedlaethau'r dyfodol. |

| | | |
|---|---|---|
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port** | Dywedodd yr Awdurdod Lleol fod diddymu angen blaenoriaethol mewn ymateb i'r pandemig COVID-19 wedi rhoi pwysau enfawr ar y gwasanaeth. Roedd yr holl asesiadau'n cael eu cynnal o bell, ac roedd y cymorth a'r gwaith atal yn parhau.<br><br>Hefyd, dywedodd yr Awdurdod Lleol fod nifer y cyflwyniadau wedi rhoi pwysau mawr ar y gwasanaeth, er bod y trefniadau i staff weithio o gartref wedi llwyddo i ryw raddau. Fodd bynnag, ni all y fath lefel o gyflwyniadau barhau. | |
| **Cyngor Caerdydd** | Dywedodd yr Awdurdod Lleol fod ganddo adnoddau a phrosesau priodol ar waith i sicrhau bod cyngor a chymorth tai ar gael yn rhwydd i'r sawl sydd ei angen. Roedd amrywiaeth o wasanaethau ar gael i sicrhau bod cael gafael ar help a chwblhau asesiad digartrefedd mor rhwydd â phosibl i'r unigolyn. Roedd y broses yn sicrhau bod yr asesiad yn briodol a'i fod yn cydymffurfio â gofynion statudol. Roedd yr Awdurdod Lleol yn cydweithio'n glos â gwasanaethau ac asiantaethau eraill i sicrhau bod cleientiaid yn cael eu hatgyfeirio i gael asesiad cyn gynted â phosibl.<br><br>Roedd pwysigrwydd asesiad yn cael ei bwysleisio ymhlith gwasanaethau eraill y Cyngor, gan gynnwys y Tîm Allgymorth a oedd yn cwblhau asesiadau symudol yn achos pobl sy'n cysgu allan. Roedd cymorth ar gael i rai â phroblemau iechyd meddwl; roedd Swyddog Atal arbenigol yn asesu cleientiaid seiciatrig a all fod ag angen am lety.<br><br>Disgrifiodd yr Awdurdod Lleol ffyrdd eraill o sicrhau bod ei wasanaeth yn hygyrch i bobl mewn ysbytai, dioddefwyr cam-drin domestig, pobl sy'n byw mewn llochesi, ffoaduriaid a cheiswyr lloches, a rhai sy'n gadael carchar. Eglurodd fod ganddo hefyd | |

| | | |
|---|---|---|
| | berthynas waith glos â Shelter Cymru a Llamau. Cyfeiriodd at wasanaeth atgyfeirio uniongyrchol ac at ei Dimau Dyledion a Thai, a oedd yn darparu gwybodaeth am y gwahanol agweddau ar ei wasanaeth.<br><br>Dywedodd yr Awdurdod Lleol fod manylion am yr hawl i adolygiad wedi'u cynnwys yn ei holl lythyrau penderfyniad a bod taflen ffeithiau hefyd yn cael ei hanfon a oedd yn egluro'r amrywiol ddyletswyddau cyfreithiol. Roedd yr hawl i apelio hefyd yn cael ei egluro'n llafar pan yn briodol, e.e. rhwystrau ieithyddol.<br><br>Dywedodd yr Awdurdod Lleol fod adolygiadau'n cael eu gweinyddu'n gywir, a'u bod yn dilyn y canllawiau cywir. Ar ôl cwblhau adolygiad, roedd adroddiad llawn yn cael ei gynhyrchu gan y Swyddog Apeliadau ac a oedd wedyn yn cael ei anfon at Reolwr y penderfynwr. Roedd yr adroddiad yn cynnwys pro fforma adborth ac roedd yn nodi unrhyw resymau am ganlyniad yr apêl ac argymhellion, gan gynnwys awgrymiadau ar gyfer gwella. Os oedd patrwm o bryderon yn dod i'r amlwg, byddai unrhyw anghenion hyfforddi'n cael eu nodi a'u dadansoddi gan y rheolwyr a byddai hynny'n cael ei anfon ymlaen at y swyddog hyfforddi i wneud trefniadau. Roedd gweithdrefnau a phrosesau'n cael eu diweddaru i gynnwys unrhyw newidiadau a wnaed. Hefyd, roedd data blynyddol a chwarterol yn cael eu harchwilio, ac roedd tueddiadau'n cael eu monitro. Er mwyn amharu cyn lleied â phosibl ar yr ymgeisydd ac i osgoi unrhyw fiwrocratiaeth, roedd ganddo berthynas waith dda â phartneriaid, gan gynnwys Shelter Cymru. Os gellid osgoi apêl, neu os nad oedd angen am un, er enghraifft, drwy ailasesu achos, byddai asesiad newydd yn cael ei gwblhau cyn gynted â phosibl. | Mae'r enghraifft hon o welliant yn galonogol a gallai fod yn enghraifft o arfer da ar gyfer pob Awdurdodau Lleol.<br><br>Bydd effaith COVID-19 ar geisiadau am adolygiadau'n cael sylw fel rhan o'r ymchwiliad arfaethedig. |

| | | |
|---|---|---|
| | Mewn ymateb i COVID-19 cafodd mynediad at wasanaethau digartrefedd yr Awdurdod Lleol ei addasu i barhau i gynnig gwasanaeth o safon uchel i gleientiaid digartref. Roedd y rhan fwyaf o asesiadau'n cael eu cynnal dros y ffôn; fodd bynnag, roedd asesiadau wyneb yn wyneb ar gael oes oedd angen.<br><br>Arweiniodd cyfarwyddeb Llywodraeth Cymru sy'n datgan bod pob ymgeisydd i gael eu cyfrif fel angen blaenoriaethol yn ystod y pandemig at lai o ofynion gweinyddol i gael tystiolaeth feddygol gan ymgeiswyr. Gan fod gan y rhan fwyaf o ymgeiswyr angen blaenoriaethol, bu llai o apeliadau yn erbyn penderfyniadau 'Nid mewn Angen Blaenoriaethol'.<br><br>Ni fu dim effeithiau arwyddocaol ar y broses adolygu yn ystod COVID-19.<br><br>Ar y cyfan, roedd y defnydd o asesiadau dros y ffôn yn llwyddiannus ac roedd wedi golygu profiad gwell i gleientiaid. Un maes a oedd yn achos pryder oedd nad oedd cleientiaid mor barod bob amser i rannu gwybodaeth bersonol dros y ffôn, gan y byddent yn fwy cartrefol wyneb yn wyneb.<br><br>Dywedodd yr Awdurdod Lleol fod ei brosesau o ran asesiadau a'r hawl i adolygu yn gadarn. Hefyd, roedd cyngor annibynnol ar gael yn rhwydd gan ystod o sefydliadau, gan gynnwys Shelter Cymru i helpu cleientiaid i herio asesiadau digartrefedd. Roedd y broses adolygu'n cael ei chynnal gan swyddogion annibynnol a oedd yn adolygu'r achos yn drylwyr. Yn aml roedd gwybodaeth newydd yn dod i'r amlwg ar yr adeg honno ac a oedd yn arwain at newid y penderfyniad. | Bydd yr enghraifft hon o newid mewn arferion gweithio, a'r effaith mewn ymateb i COVID-19 yn cael sylw yn ystod yr ymchwiliad.<br><br>Mae'r Ombwdsmon yn cydnabod bod Awdurdodau Lleol yn gweithredu mewn amgylchiadau sy'n newid yn gyflym wrth iddynt ymateb i'r pandemig COVID-19. Mae hefyd yn cydymdeimlo â'r pwysau a'r heriau sy'n codi yn sgil hyn; fodd bynnag, mae ganddo ddyletswydd weithredol fel Ombwdsmon i gyfrannu at welliant gwasanaethau cyhoeddus, hyd yn oed ar adegau fel hyn. |

| | | |
|---|---|---|
| | Nid oedd nifer y penderfyniadau a wrth-drowyd yn arwydd o brosesau penderfynu gwael ond roedd yn hytrach yn arwydd bod y broses adolygu'n un gadarn.<br><br>Dywedodd yr Awdurdod Lleol nad oedd yn deall pam mae'r adolygiad hwn yn cael blaenoriaeth yn ystod y cyfnod anodd hwn. | |
| **Rhwydweithiau Cymorth Tai** | Mae COVID-19 a'r goblygiadau cysylltiedig i iechyd cyhoeddus wedi arwain at newid dramatig yn y ffordd y mae asesiadau digartrefedd yn cael eu cynnal. Ar y dechrau, symudodd yr holl Awdurdodau Lleol at weithio o bell drwy e-bost a dros y ffôn; fodd bynnag, ers hynny, mae gan rai Awdurdodau Lleol dîm sylfaenol er mwyn gallu cynnal asesiadau wyneb yn wyneb. Cyn y pandemig, roedd nifer o Awdurdodau Lleol yn gweithio dros eu capasiti. Ers y pandemig mae llwyth achos rhai Awdurdodau Lleol wedi dyblu.<br><br>Mae Awdurdodau Lleol yn dysgu drwy'r amser ac maent yn ceisio gwella'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt, gyda llawer o Awdurdodau Lleol yn cyflwyno proses fewnol i rannu dysgu yn sgil penderfyniadau. Er bod Awdurdodau Lleol wedi datblygu diwylliant o fyfyrio a pharodrwydd i ddysgu o brofiadau blaenorol, mae COVID-19 a llwyth gwaith achos trymach wedi ei gwneud yn anos i gyflawni hyn.<br><br>Mae Rhwydwaith Cymorth Tai'r Awdurdodau Lleol yn gweithredu fel fforwm i drafod rhesymau dros adolygu a'r penderfyniadau a wneir i sicrhau bod dysgu'n digwydd ar draws ffiniau a bod arferion gweithio'n gwella.<br><br>Ers dechrau'r pandemig, mae nifer yr asesiadau ac adolygiadau wedi cynyddu. Mae'n mynd yn anos i gyflawni unrhyw | Bydd yr ymchwiliad yn sicrhau bod y cynnydd mewn llwyth gwaith, ymdrechion a gweithredoedd Awdurdodau Lleol mewn ymateb i COVID-19 yn cael sylw.<br><br>Mae'n galonogol gweld diwylliant o ddysgu a myfyrio parhaus. Drwy gymryd ymagwedd gyfannol tuag at y mater hwn gall OGCC helpu Awdurdodau Lleol yn eu hymdrech i sicrhau gwelliant parhaus drwy ganfod mentrau effeithiol ac arferion gweithio da.<br><br>Rydym yn cydnabod bod Awdurdodau Lleol yn gweithredu mewn amgylchiadau sy'n newid yn gyflym wrth iddynt ymateb i'r |

| | | |
|---|---|---|
| | ddyletswyddau dyledus yn llwyddiannus wrth i gyflenwad llety addas leihau ac anghenion cleientiaid sydd angen cymorth ychwanegol a llety penodol gynyddu. Mae gallu rhai pobl i gadw llety dros dro hefyd wedi bod yn broblem ac mae wedi effeithio ar ddyraniad llety o'r fath yn ogystal â beth i'w wneud pan fydd lleoliadau dros dro'n methu gan fod mesurau iechyd cyhoeddus yn datgan fod yn rhaid parhau i gartrefu pobl.<br><br>Mae llawer o adolygiadau wedi canolbwyntio ar addasrwydd llety dros dro a'i allu i gyrraedd safonau diogelwch COVID-19, yn ogystal â chyflawni dyletswyddau llety dros dro yn ystod argyfwng iechyd cyhoeddus. Mae adolygiadau'n tynnu staff i ffwrdd oddi wrth faterion gweithredol ac mae hynny'n effeithio ar y gwasanaeth y gall yr Awdurdod Lleol ei ddarparu.<br><br>Mae ymchwiliad arfaethedig OGCC er budd y cyhoedd ac mae unrhyw ymchwiliad i'r system ddigartrefedd i'w groesawu gan y bydd unrhyw welliannau y gellir eu gwneud, yn y pen draw, yn arwain at well system i bawb. Fodd bynnag, nid dyma'r amser i gynnal ymchwiliad o'r fath. Mae Timau Tai wedi profi, ac maent yn dal i brofi pwysau sylweddol. Ar hyd a lled y wlad, dywedir fod morâl a lefelau straen staff yn broblem wirioneddol, wrth i swyddogion ymdrechu i ddelio â system dai fethiannus lle mae 3000 yn fwy o aelwydydd mewn llety dros dro o'i gymharu â chyn y cyfyngiadau symud, gyda'r opsiynau i symud ymlaen yn gyfyngedig iawn a'r opsiynau ar gyfer llety dros dro neu argyfwng yn lleihau.<br>Mae'r pwysau ar staff yn debygol o gynyddu, gyda'r bwriad i ddod â'r cynllun ffyrlo i ben, y cynnydd yn nifer yr hawlwyr Credyd Cynhwysol, ailgychwyn achosion ailfeddiannu/troi allan a'r diwedd ar seibiannau taliadau morgais. Bydd cynnal ymchwiliad o'r fath yn awr yn cael ei weld fel rhywbeth beirniadol yn hytrach nag adeiladol | pandemig COVID-19. Rydym yn ymwybodol o hyn ac yn cydymdeimlo â'r pwysau a'r heriau sy'n codi yn sgil hyn. Byddai'r ymchwiliad hwn yn gyfle i adolygu mentrau sefydledig a all helpu Awdurdodau Lleol eraill sy'n profi anawsterau mewn rhai meysydd.<br><br>Cydnabyddir fod adolygiadau'n amserol a'u bod yn gallu bod yn anodd; fodd bynnag, maent yn rhan ddilys ac angenrheidiol o unrhyw broses i sicrhau bod y gwasanaethau'n cael eu darparu mewn ffordd sy'n cydymffurfio â rhwymedigaethau deddfwriaethol a safonau gwasanaeth disgwyliedig.<br><br>Mae'r Ombwdsmon yn cydnabod yr ymdrechion a wnaed gan Awdurdodau Lleol mewn ymateb i'r pandemig COVID-19. Mae'n ymwybodol o'r heriau sy'n wynebu staff yn y sector tai ond mae hefyd yn ymwybodol o'i ddyletswydd weithredol fel Ombwdsmon i gyfrannu at welliant gwasanaethau cyhoeddus hyd yn oed ar adeg fel hon.<br><br>Bydd Swyddogion Ymchwilio'r Ombwdsmon yn ymwybodol o'r pwysau o ran amser ac adnoddau sydd ar Awdurdodau Lleol yn ystod yr ymchwiliad |

| | | |
|---|---|---|
| | a bydd yn gwneud mwy o ddrwg nag o les i wasanaethau a'r unigolion rydym i gyd yn awyddus i'w helpu. | a bydd yn sicrhau bod ymholiadau cymesur a rhesymol yn cael eu gwneud. |
| **Cyngor Abertawe** | Mae'r Tîm Opsiynau Tai yn cael yr hyfforddiant diweddaraf ac maent yn talu sylw dyladwy i'r canllawiau cysylltiedig. Mae'r Awdurdod Lleol yn ymdrechu i ymyrryd mor gynnar â phosibl i sicrhau canlyniadau positif. Mae'r Awdurdod Lleol yn hybu gwaith tîm amlasiantaethol.<br><br>Mae adolygiadau'n cael eu cynnal gan uwch aelod o staff yr Awdurdod Lleol a oedd yn gysylltiedig â'r achos yn flaenorol. Mae'r rheswm dros wrthdroi penderfyniad yn cael ei egluro'n llawn i'r aelod o staff sy'n gyfrifol a bydd unrhyw beth a ddysgir yn cael ei rannu i sicrhau cysondeb, ac i ganfod unrhyw anghenion hyfforddi neu adolygiadau o brosesau mewnol.<br><br>Ar ddechrau'r pandemig, caewyd y swyddfa Opsiynau Tai i'r cyhoedd, ac roedd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu'n gyfan gwbl dros y ffôn/e-bost. Effeithiodd hyn ar y trafodaethau rhwng y swyddog a'r cleient. Gall hefyd ei gwneud yn anodd canfod a oes gan gleient anghenion cymorth/a yw'n agored i niwed.<br><br>Er bod pob aelwyd sy'n ddigartref yn ystod y pandemig yn cael eu cyfrif fel angen blaenoriaethol, mae'r angen am ymholiadau llawn/gwaith yn parhau er mwyn sicrhau bod yr asesiad yn adlewyrchiad cywir o anghenion yr ymgeisydd.<br><br>Ni chanfu'r Awdurdod Lleol ddim effaith wirioneddol ar y broses adolygu, ac nid yw wedi newid yn ystod y pandemig. Roedd yr Awdurdod Lleol yn ymwybodol bod yr hawl i ofyn am adolygiad wedi | Gallai'r enghraifft hon o adolygiadau a gynhaliwyd gan uwch aelod o staff fod yn enghraifft o arfer gweithio da i bob Awdurdod Lleol.<br><br>Mae'n braf nodi nad yw mynediad at wasanaethau, er gwaethaf y pandemig, wedi'i effeithio. Fodd bynnag, mae'n siomedig nodi ei fod, i'r sawl sy'n gweinyddu'r gwasanaeth, wedi cael y fath effaith ar eu perthynas waith â'u cleientiaid. |

| | | |
|---|---|---|
| | parhau yn ystod y pandemig ac mae wedi parhau i helpu a chefnogi pobl ar sail hynny.<br><br>Dywedodd yr Awdurdod Lleol fod COVID-19 wedi arwain at well gweithio amlasiantaethol gyda gwasanaethau ac ymyriadau newydd sy'n cael eu sefydlu ar frys. Fodd bynnag, er bod blaenoriaeth wedi'i rhoi i rai mewn llety dros dro, mae'r Awdurdod Lleol yn bryderus am yr effaith ar ymholiadau tai cyffredinol.<br><br>Dywedodd yr Awdurdod Lleol nad oedd yn teimlo mai dyma'r amser iawn i'r Ombwdsmon gynnal yr ymchwiliad hwn o ystyried y pwysau enfawr sydd ar wasanaethau digartrefedd ar hyn o bryd. Mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod pob aelwyd ddigartref yn cael eu cyfrif fel angen blaenoriaethol, ac mae'r Awdurdod Lleol yn dal i ganolbwyntio ar ganfod y datrysiad cywir i bob aelwyd.<br><br>Dywedodd yr Awdurdod Lleol fod y rhan fwyaf o'r penderfyniadau sy'n cael ei herio'n gysylltiedig â rhesymoldeb y cynnig o lety parhaol; roedd hyn gan amlaf yn ymwneud â lleoliad yr eiddo. Roedd yr Awdurdod Lleol yn fodlon bod nifer isel y cynigion a oedd yn cael eu gwrthod a'r heriau yn arwydd o'r sylw a delid i bob agwedd ar anghenion cymorth yr ymgeisydd a'r hyblygrwydd yn ei ffordd o ganfod datrysiad. | Gallai gwelliannau mewn gweithio amlasiantaethol fod yn enghraifft o arfer gweithio da i bob Awdurdod Lleol.<br><br>Bydd Swyddogion Ymchwilio'r Ombwdsmon yn ymwybodol o'r pwysau o ran amser ac adnoddau sydd ar Awdurdodau Lleol yn ystod yr ymchwiliad a bydd yn sicrhau bod ymholiadau cymesur a rhesymol yn cael eu gwneud. |
| **Cyngor Dinas Casnewydd** | Yn ystod y pandemig, aeth yr Awdurdod Lleol ati i addasu ei ddarpariaeth gwasanaeth digartrefedd i gynnal asesiadau o bell. Gwelodd yr Awdurdod Lleol gynnydd sylweddol yn nifer yr achosion o ddigartrefedd ond parhaodd i gyflawni ei rwymedigaethau statudol.<br><br>Dywedodd yr Awdurdod Lleol fod y ceisiadau ychwanegol am adolygiadau wedi cynyddu'r baich ar yr Awdurdod Lleol yn ystod y | Bydd effaith COVID-19 ar nifer y ceisiadau am adolygiadau yn cael sylw fel rhan o'r ymchwiliad arfaethedig. |

| | | |
|---|---|---|
| | pandemig wrth i addasrwydd llety a chanllaw Llywodraeth Cymru arwain at wybodaeth wrthgyferbyniol a heriau i symud aelwydydd ymlaen i lety parhaol. Roedd galw ychwanegol ar y gwasanaeth a phwysau ar staff hefyd yn golygu ei bod yn cymryd mwy o amser i brosesu ceisiadau.<br><br>Mae’r Awdurdod Lleol yn hybu datblygiad staff a rhoddwyd beirniadaeth adeiladol ar ôl i adolygiadau gael eu gwrthdroi i sicrhau bod arferion gweithio’n gwella a bod gwersi’n cael eu dysgu. Roedd achosion cymhleth hefyd y cael eu trafod â’r tîm ehangach i gael gwell dealltwriaeth a mwy o gysondeb.<br><br>Dywedodd yr Awdurdod Lleol fod y ddarpariaeth gwasanaeth statudol yn adweithiol iawn yn ystod y pandemig a’i fod wedi newid yn ddramatig mewn cyfnod byr iawn. Bydd yr holl wersi a ddysgwyd yn ystod y pandemig yn goleuo strategaethau’r dyfodol a sut y bydd dyletswyddau statudol yn cael eu cyflawni.<br><br>Dywedodd yr Awdurdod Lleol bod cynnydd o 68% wedi bod yn nifer yr asesiadau a gynhaliwyd ac yn nifer y rhai y mae dyletswydd i ddarparu llety ar eu cyfer yn ystod y pandemig o ganlyniad i newidiadau i’r categorïau angen blaenoriaethol a gwendidau. Roedd hyn yn golygu pwysau ychwanegol ar y staff ac ar y gwasanaeth.<br><br>Dywedodd yr Awdurdod Lleol fod cynnydd wedi bod yn nifer y ceisiadau am adolygiadau, yn enwedig yn ymwneud ag addasrwydd llety. Fodd bynnag, nid oedd capasiti ychwanegol i’w cynnal gan fod y swyddogion o dan bwysau i addasu’r gwasanaeth ar lefel weithredol a strategol. | Mae’n galonogol nodi bod yr Awdurdod Lleol eisoes yn edrych ar strategaethau ar gyfer y dyfodol yn seiliedig ar yr hyn a ddysgwyd yn ystod y pandemig. Mae hwn yn arfer da a all gael ei rannu ag Awdurdodau Lleol eraill. |

| | | |
|---|---|---|
| | Dywedodd yr Awdurdod Lleol fod yr addasu i weithio o bell yn bositif a'i fod wedi gwneud pethau'n fwy effeithlon. Roedd anghenion cymorth defnyddwyr gwasanaeth wedi'u canfod yn gynharach a gwelwyd canlyniadau positif yn sgil gweithio ar y cyd.<br><br>Dywedodd yr Awdurdod Lleol fod staff wedi rhoi 110% i sicrhau bod gwasanaethau statudol yn cael eu cyflawni ond roedd straen a blinder yn dechrau dweud arnynt. Roedd lleihad yn y llety symud ymlaen oedd ar gael, anghenion cymhleth ac ymddygiad heriol wedi cyfrannu at fethiant lleoliadau argyfwng, ac roedd hynny'n mynd yn groes i'r ddeddfwriaeth a chymorth dyledus. Mae cynnydd yn yr amser sy'n cael ei dreulio i gwblhau adolygiadau yn effeithio ar y gwasanaeth a ddarperir a'r help sydd ar gael i'r rhai mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas.<br><br>Dywedodd yr Awdurdod Lleol y byddai'r cyhoedd yn elwa ar yr ymchwiliad hwn ac y byddai unrhyw argymhellion ar gyfer gwella yn cael eu croesawu gan yr Awdurdod Lleol i leihau'r risg o geisiadau posibl am adolygiadau ac felly amser, ymdrech ac adnoddau y gellid eu neilltuo i ddarparu gwasanaeth.<br><br>Dywedodd yr Awdurdod Lleol nad oedd amseriad yr ymchwiliad yn ddelfrydol gan eu bod yn dal i ddelio ag argyfwng ac argyfwng iechyd cyhoeddus ac roedd yn bryderus y byddai pwysau ychwanegol i gydymffurfio â'r ymchwiliad neu dderbyn beirniadaeth ar yr adeg hon yn cael effaith negyddol ar staff ac na fyddai'n ddatblygiad adeiladol. | Mae'r newidiadau i'r ddarpariaeth a'r effeithlonrwydd cynyddol yn enghreifftiau o arfer da a all gael ei rannu ag Awdurdodau Lleol eraill<br><br>Derbynnir fod adolygiadau'n amserol a'u bod yn gallu bod yn anodd; fodd bynnag, maent yn rhan ddilys ac angenrheidiol o unrhyw broses i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu i gyflawni rhwymedigaethau deddfwriaethol a safonau gwasanaeth disgwyliedig.<br><br>Bydd Swyddogion Ymchwilio'r Ombwdsmon yn ymwybodol o'r pwysau o ran amser ac adnoddau sydd ar Awdurdodau Lleol yn ystod yr ymchwiliad a bydd yn sicrhau bod ymholiadau cymesur a rhesymol yn cael eu gwneud. |
| **Shelter Cymru** | Dywedodd Shelter, er eu bod yn cydnabod nad oedd ei waith achos yn sampl gynrychioliadol o bawb sy'n defnyddio'r gwasanaeth | |

| | | |
|---|---|---|
| | digartrefedd yng Nghymru, ond yn eu profiad hwy nid oedd asesiadau bob amser yn cael eu cynnal fel y dylent.<br><br>Yn hanesyddol, roedd tystiolaeth o arferion amhriodol gan rai Awdurdodau Lleol wrth iddynt asesu pobl agored i niwed a chysylltiad lleol. Hefyd, roedd rhai Awdurdodau Lleol yn cynnal asesiadau anffurfiol y tu allan i'r cynllun statudol a oedd i bob pwrpas yn amddifadu ymgeiswyr o'u hawliau statudol.<br><br>Canfu Shelter Cymru nad oedd gwybodaeth am hawl ymgeiswyr i gael adolygiad yn cael ei chynnwys bob amser yn yr ohebiaeth neu roedd yn cael ei hysgrifennu mewn ffordd nad oedd yn hawdd ei deall. Gyda llawer o swyddfeydd Cynghorau ynghau o ganlyniad i'r pandemig, roedd yn anos i rai heb gyfeiriad post i dderbyn gohebiaeth. O ganlyniad, nid oeddent yn cael yr holl wybodaeth angenrheidiol, gan gynnwys manylion am eu hawl i adolygiad. Roedd enghreifftiau hefyd o gleientiaid yn cael clywed nad oedd diben iddynt ofyn am adolygiad gan na fyddai'r penderfyniad gwreiddiol yn cael ei newid.<br><br>Yn ei adroddiad, gwnaeth Shelter Cymru argymhellion i annog Awdurdodau Lleol i rannu dysgu ac arferion gorau.<br><br>Dywedodd Shelter Cymru fod llawer o Awdurdodau Lleol yn profi pwysau ar lety dros dro ac mai dyna pam yr oeddent yn gweld lefelau uwch o borthgadw mewn gwaith achos, a bod pobl yn cael eu darbwyllo i beidio â gwneud ceisiadau digartrefedd.<br><br>Hefyd, pan oedd asesiad yn cael ei gynnal ac yna'n cael ei dderbyn, nid oedd llety'n cael ei gynnig, neu dim ond llety anaddas fel podiau. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Yn ôl Shelter Cymru, ar ddechrau'r pandemig, roedd ymdrech enfawr wedi'i gwneud gan Awdurdodau Lleol i gael pawb oddi ar y strydoedd. Fodd bynnag, roeddent yn gweithio fwyfwy â phobl a oedd wedi'u troi allan o lety dros dro ac roedd yr Awdurdodau Lleol yn dweud nad oedd dim ar gael iddynt. Roedd rhwystrau a oedd yn atal y gallu i herio hyn drwy arolygiad barnwrol oherwydd anawsterau wrth geisio helpu ymgeiswyr i gymryd rhan yn y broses oherwydd yr angen i gyflwyno mantolenni banc i Gymorth Cyfreithiol.<br><br>Dywedodd Shelter Cymru fod y newid i asesiadau dros y ffôn hefyd wedi cael effaith, gan ei gwneud yn anos i swyddogion Awdurdodau Lleol deall holl amgylchiadau'r ymgeiswyr, gan fod pobl yn ei chael yn anos i gyfathrebu dros y ffôn.<br><br>Dywedodd Shelter Cymru fod effaith y pandemig ar y broses adolygu'n amrywio ar draws Cymru, Er bod rhai ardaloedd wedi gweld llai o adolygiadau, wrth i fwy o bobl ag anghenion blaenoriaethol ddod i'r amlwg, roedd llai yn cyflawni dyletswyddau, roedd eraill yn dal i gael niferoedd uchel o adolygiadau. Dywedodd Shelter Cymru fod y rhan fwyaf o adolygiadau'n digwydd o ganlyniad i golli llety dros dro. Ychwanegodd Shelter Cymru fod newid hefyd wedi bod o ran parodrwydd Awdurdodau Lleol i gynnal adolygiadau arfaethedig. Roedd y ceisiadau hyn yn cael eu gwrthod yn amlach na'r hyn a welid cyn COVID-19. Roedd hyn yn golygu bod mwy'n ddigartref ar y stryd neu'n cysgu ar soffa yn ystod y ffenestr wyth wythnos yr adolygiad.<br><br>Roedd Shelter Cymru yn croesawu ymchwiliad annibynnol i'r materion hyn gan gynnwys crynhoi'r arferion da a ddatblygwyd yn ystod y pandemig. Nid oedd asesiadau digartrefedd ac | |

| | | |
|---|---|---|
| | adolygiadau'n destun llawer o graffu nac ymchwilio, ond eto roeddent yn cael eu profi gan bobl a oedd yn aml yn mynd drwy adeg eithriadol o anodd yn eu bywydau. Roedd hyn yn arwydd o aneffeithlonrwydd y system bresennol a phe byddent yn cael sylw priodol, byddai'n arwain at arbed arian cyhoeddus yn ogystal â gwella profiadau pobl sy'n defnyddio gwasanaethau. | |
| **Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru** | Mae effaith y pandemig ar wasanaethau digartrefedd a thai Awdurdodau Lleol wedi bod yn ddramatig a di-dor. Mae cannoedd o unigolion ac aelwydydd ychwanegol wedi eu lleoli mewn llety argyfwng dros dro ledled Cymru. Mae'r adnoddau sydd eu hangen i reoli'r sefyllfa hon yn sylweddol, ynghyd â dod o hyd i opsiynau priodol ar gyfer llety symud ymlaen a'r cymorth sydd ei angen ar y bobl fregus hyn. Mae Awdurdodau Lleol hefyd yn gweld cynnydd sylweddol yn nifer y bobl sy'n cyflwyno'u hunain yn ddigartref sy'n aml yn "ddigartref ar y diwrnod" gyda dim neu fawr ddim cyfle i wneud gwaith atal.<br><br>Mae Awdurdodau Lleol a'u partneriaid yn gweithio'n eithriadol o galed i wynebu'r heriau o drawsnewid gwasanaethau digartrefedd, canfod llety ychwanegol ac ailfodelu a/neu adnewyddu llety argyfwng dros dro anaddas. Mae'r gwaith hwn yn cael eu helpu gan gyllid sylweddol gan Lywodraeth Cymru gyda gofyniad i'w wario erbyn diwedd y flwyddyn ariannol gyfredol, sy'n ddim ond 5 mis i ffwrdd, gan ychwanegu at y pwysau ar Dimau Digartrefedd.<br><br>Mae pryderon cyffredinol ynglŷn ag effaith gronnol yr ymdrechion gan staff mewn gwasanaethau digartrefedd a chymorth yn ystod yr 8 mis diwethaf, a'r effaith negyddol mae hyn wedi'i gael ar lesiant a chydnerthedd staff. Gallai cynnal yr ymchwiliad arfaethedig ar yr adeg yma roi rhagor o bwysau ar y staff hynny. Byddem yn | Bydd effaith COVID-19 ar ymgeiswyr ac ar Awdurdodau Lleol yn cael sylw yn ystod yr ymchwiliad.<br><br>Mae'r Ombwdsmon yn cydnabod yr ymdrechion arbennig a wnaed gan Awdurdodau Lleol mewn ymateb i'r pandemig COVID-19, ac mae'n ymwybodol o'r heriau a wynebir gan staff sy'n gweithio yn y sector tai. Fodd bynnag, mae'r Ombwdsmon yn ymwybodol bod ganddo ddyletswydd weithredol i gyfrannu at welliant gwasanaethau cyhoeddus, hyd yn oed ar adegau fel hyn.<br><br>Bydd yr ymchwiliad arfaethedig yn ystyried gwersi y gellir eu dysgu i helpu i greu Cymru fwy cyfartal i genedlaethau'r dyfodol.<br><br>Bydd Swyddogion Ymchwilio'r Ombwdsmon yn ymwybodol o'r pwysau o ran amser ac adnoddau sydd ar Awdurdodau Lleol yn ystod yr ymchwiliad |

| | | |
|---|---|---|
| | awgrymu gohirio'r ymchwiliad am y tro nes bydd yr argyfwng iechyd cyhoeddus drosodd. | a bydd yn sicrhau bod ymholiadau cymesur a rhesymol yn cael eu gwneud. |
| **CRISIS** | Dywedodd Crisis fod tystiolaeth sy'n dangos bod yr adolygiad diweddar o angen blaenoriaethol yn cael ei ddefnyddio fel rheswm i borthgadw a throi ymgeiswyr i ffwrdd cyn bod unrhyw gymorth ystyrlon yn cael ei gynnig.<br><br>Dywedodd Crisis fod cyllid a chanllawiau ychwanegol y llywodraeth, drwy gydol y pandemig, ynghyd ag ymatebion Awdurdodau Lleol a phartneriaid ar lefel leol, wedi dangos y gellid symleiddio'r broses asesu i ymgeiswyr ac Opsiynau Tai. Mae canfyddiadau cynnar o drafodaethau Crisis ag Awdurdodau Lleol a darparwyr mewn rhai ardaloedd o Gymru yn awgrymu bod newidiadau i asesiadau o wendid a chymhwyso angen blaenoriaethol wedi caniatáu mwy o bwyslais ar ddatrys problemau a diwallu anghenion unigol pobl, yn hytrach na phrosesu ac asesu hawliadau. Awgrymodd y gallai lleihau cymhlethdod ac amodoldeb y system ddigartrefedd cyn COVID-19 helpu i ddarparu cymorth i bobl sy'n wynebu digartrefedd. Fodd bynnag, cafwyd cydnabyddiaeth y gallai pwysau ar y broses asesu drwy gydol y pandemig a chyn COVID-19 ddylanwadu'n anffurfiol ar ymateb staff rheng flaen Awdurdodau Lleol.<br><br>Yn ôl Crisis roedd rhai pobl a oedd yn profi digartrefedd yn cael anhawster defnyddio gwasanaethau o bell am nad oedd ganddynt gyfarpar TG digonol. Hefyd, gall cyfathrebu'n ddigidol fod yn anodd i rai oherwydd cysylltedd gwael mewn rhai ardaloedd.<br><br>Dywedodd Crisis fod llawer i'w ddysgu drwy arferion gorau – yn enwedig yn ystod y pandemig – i sicrhau bod dysgu a rhannu arferion ymhlith Awdurdodau Lleol yn parhau. | Bydd effaith addasiadau a wnaed mewn ymateb i Covid-19 ar gyfer ymgeiswyr ac Awdurdodau Lleol yn cael sylw yn ystod yr ymchwiliad. |

| | | |
|---|---|---|
| **Cyngor Sir Ynys Môn** | Dywedodd yr Awdurdod Lleol fod yr angen i gadw staff a’r cyhoedd yn ddiogel yn ystod y pandemig wedi arwain at newid sylweddol yn y ffordd mae asesiadau’n cael eu cynnal.<br><br>Roedd dysgu myfyriol wedi ymwreiddio i ddiwylliant yr Awdurdod Lleol. Bydd dysgu o benderfyniadau adolygiadau’n cael ei fwydo’n ôl i waith achos drwy gyfarfodydd tîm, sesiynau briffio a hyfforddi.<br><br>Ers cyflwyno’r cyfyngiadau symud ddiwedd mis Mawrth 2020, dywedodd yr Awdurdod Lleol fod bron y cyfan o’r gwaith achos wyneb yn wyneb wedi dod i ben, gyda'r rhan fwyaf o asesiadau’n awr yn digwydd dros y ffôn, e-bost neu alwadau fideo.<br><br>Gwelwyd cynnydd ym maint y llwyth achosion, gyda swyddogion yn gorfod delio â dwywaith nifer y ceisiadau yn ei llwyth achos o’u gymharu â chyn y pandemig. Hefyd, roedd cynnydd yn nifer yr adolygiadau, gyda llawer yn ymwneud ag addasrwydd llety.<br><br>Dywedodd yr Awdurdod Lleol fod ei dîm wedi mynd yn bellach na’r disgwyl i gyflawni ei ddyletswyddau yn ystod y cyfnod anodd hwn. Er bod asesiadau wedi cael eu cynnal, daeth yn gynyddol anodd i gyflawni dyletswyddau dyledus yn llwyddiannus, gan fod cyflenwad y llety diogel wedi crebachu ac anghenion cleientiaid sydd angen cymorth ychwanegol a llety penodol wedi cynyddu. Hefyd, roedd gallu rhai pobl i gadw llety dros dro yn broblem ac roedd hynny’n effeithio ar ddyraniadau llety, yn enwedig pan oedd lleoliadau llety dros dro’n methu a bod mesurau iechyd cyhoeddus yn datgan bod yn rhaid parhau i gartrefu pobl. Mae adolygiadau bob amser yn tynnu staff i ffwrdd oddi wrth faterion gweithredol ac roedd hynny wedi effeithio ar y gwasanaeth a ddarparwyd. | Bydd effaith Covid-19 ar gyfer yr asesiadau a’r ceisiadau am adolygiadau yn cael sylw fel rhan o’r ymchwiliad arfaethedig<br><br>Bydd ymdrechion a gweithredoedd Awdurdodau Lleol mewn ymateb i COVID-19 yn cael sylw yn ystod yr ymchwiliad.<br><br>Mae’r Ombwdsmon yn cydnabod yr ymdrechion arbennig a wnaed gan Awdurdodau Lleol mewn ymateb i’r pandemig COVID-19. Mae hefyd yn ymwybodol o’r heriau a wynebir gan y sawl sy’n gweithio yn y sector tai ond mae hefyd yn ymwybodol bod ganddo ddyletswydd weithredol i gyfrannu at welliant gwasanaethau cyhoeddus, hyd yn oed ar adegau fel hyn. |

| | | |
|---|---|---|
| | Dywedodd yr Awdurdod Lleol fod unrhyw adolygiad o’r system ddigartrefedd i’w groesawu gan y byddai unrhyw welliannau y gellid eu gwneud, yn y tymor hir, yn arwain at well system i bawb.<br><br>Dywedodd yr Awdurdod Lleol nad dyma’r amser am adolygiad o’r fath. Roedd ei Dîm yn cyrraedd y pwynt lle na allai ymdopi, ac roedd wedi gweithio’n hynod o galed ers cyflwyno’r cyfyngiadau symud, ac yn ceisio delio â system dai lle’r oedd 40 yn fwy o aelwydydd mewn llety dros dro na chyn y cyfyngiadau, gydag opsiynau symud ymlaen yn brin iawn a nifer llai o opsiynau ar gyfer llety dros dro neu argyfwng. | Bydd Swyddogion Ymchwilio’r Ombwdsmon yn ymwybodol o’r pwysau o ran amser ac adnoddau sydd ar Awdurdodau Lleol yn ystod yr ymchwiliad a bydd yn sicrhau bod ymholiadau cymesur a rhesymol yn cael eu gwneud. |
| **Cyngor Sir Fynwy** | Dywedodd yr Awdurdod Lleol fod penderfyniadau adolygiadau’n cael eu trafod ag aelodau staff i sicrhau bod y broses gywir yn cael ei dilyn.<br><br>Dywedodd yr Awdurdod Lleol fod nifer y bobl a oedd yn cyflwyno’n ddigartref wedi cynyddu drwy gydol y pandemig a bod hynny’n golygu pwysau ychwanegol ar y Tîm ar Ddyletswydd i gartrefu os na ellid atal digartrefedd.<br><br>Roedd yr Awdurdod Lleol wedi’i herio ynghylch lleoliad llety dros dro, er iddo weithio’n galed i baru unigolyn â llety addas.<br><br>Dywedodd yr Awdurdod Lleol fod staff wedi gweithio’n galed i helpu pobl i gadw’u llety argyfwng mewn amgylchiadau anodd. Roedd yr Awdurdod yn parhau i weithio mewn ffordd ddyfeisgar i ganfod opsiynau heblaw troi allan ac roedd hynny’n gofyn am lawer o adnoddau staff a bod hynny wedi effeithio ar lesiant staff. | Bydd effaith COVID-19 ar lwythi achos yn cael sylw fel rhan o’r ymchwiliad arfaethedig.<br><br>Mae meddwl dyfeisgar yn cael ei annog a gellid edrych ar hynny fel enghraifft o arfer gweithio da i bob Awdurdod Lleol. |

| | | |
|---|---|---|
| | Dywedodd yr Awdurdod Lleol fod y diffyg canlyniadau oherwydd ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi bod yn her fawr i'r Awdurdod, gan fod pobl wedi gwrthod symud o lety gwely a brecwast i lety dros dro neu barhaol hyd yn oed. O ganlyniad, roedd wedi mynd dros y capasiti ac roedd prinder llety symud ymlaen wedi golygu bod pobl yn gorfod aros mewn llety dros dro'n llawer hwy.<br><br>Dywedodd yr Awdurdod Lleol nad oedd amseriad yr ymchwiliad yn briodol gan fod swyddogion yn gorfod delio â niferoedd mor uchel a'u bod o dan straen. Dywedodd yr Awdurdod Lleol pe gellid gohirio'r ymgynghoriad nes byddai mesurau pellach yn cael eu cyflwyno gan Lywodraeth Cymru i helpu timau â ffordd newydd o weithio, byddai'r canlyniadau'n llawer mwy "real", ac na fyddai staff yn gorfod ymdopi â mwy o bwysau ar adeg pan oedd eu rolau wedi'u profi i'r eithaf. | Mae'r Ombwdsmon yn cydnabod yr ymdrechion arbennig a wnaed gan Awdurdodau Lleol mewn ymateb i'r pandemig COVID-19. Mae hefyd yn ymwybodol o'r heriau a wynebir gan staff yn y sector tai ond mae hefyd yn ymwybodol bod ganddo ddyletswydd weithredol i gyfrannu at welliant gwasanaethau cyhoeddus, hyd yn oed ar adegau fel hyn.<br><br>Bydd Swyddogion Ymchwilio'r Ombwdsmon yn ymwybodol o'r pwysau o ran amser ac adnoddau sydd ar Awdurdodau Lleol yn ystod yr ymchwiliad a bydd yn sicrhau bod ymholiadau cymesur a rhesymol yn cael eu gwneud. |